Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru | South Wales Fire and Rescue Service

**Swyddog Gweinyddol**
**Rhif y Swydd: NU405**

**Gradd 5: £20,092 - £20,493 y flwyddyn pro rata**

Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yw un o Wasanaethau Tân ac Achub mwyaf blaenllaw’r DU a'r mwyaf o'r tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru. Mae ardal ein Gwasanaeth yn ymestyn o Gas-gwent yn y Dwyrain i Bort Talbot yn y Gorllewin ac o arfordir y De i Fannau Brycheiniog yn y Gogledd. Rydym yn gweithredu o 47 o Orsafoedd Tân ar draws ardal y Gwasanaeth a'n Pencadlys yn Llantrisant.

Mae swydd **barhaol** fel Swyddog Cymorth Gweinyddol Cymorth Busnes wedi codi o fewn ein Hadran Cymorth Busnes yng Ngwasanaeth Tân ac Achub De Cymru. Lleolir y rôl yn ein Pencadlys yn Llantrisant ac mae am **16 awr yr wythnos.**

Mae sgiliau Iaith Gymraeg yn ddymunol ar gyfer y swydd hon ond nid yn hanfodol.

Gellir canfod mwy o fanylion mewn perthynas â'r swydd hon o fewn y Swydd-Ddisgrifiad a'r Fanyleb Person. Pe bai gennych unrhyw gwestiynau ychwanegol, fe'ch gwahoddir i gysylltu â'r Rheolwr Cymorth Busnes, Nicola Davies ar e-bost: **n-@decymru-tan.gov.uk** **neu wrth ffonio 01443 232209**.

Gellir lawr lwytho Ffurflen Gais, Manyleb Person a Swydd-Ddisgrifiad o dudalen Swyddi Cyfredol Mewnrwyd GTADC. A fyddwch cystal â nodi fod hon yn broses hynod gystadleuol a bydd angen i'r Ffurflen Gais arddangos yn glir sut fydd yr ymgeisydd yn cwrdd â'r Meini Prawf Dethol a amlygwyd ar y Fanyleb Person.

Mae'r holl ddogfennaeth ar gael yn Gymraeg a Saesneg ill dau a chroesawn gyfathrebiadau yn y naill iaith â'r llall. Ni chaiff ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg eu trin yn llai ffafriol. Mae GTADC yn credu fod gwir werth mewn cael gweithlu amrywiol ac rydym am fod yn rhagweithiol wrth annog ymgeiswyr o bob sector o’n cymuned i ymgeisio.

Dylid dychwelyd Ffurflenni Cais gorffenedig at: Recriwtio ac Adnoddu, Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Parc Busnes Forest View, Llantrisant, Rhondda Cynon Taf, CF72 8LX neu drwy law e-bost at: personél@decymru-tan.gov.uk

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw: **Dydd Llun 14 Mawrth, 2022 am 12:00.**

Rydym yn sefydliad sy'n ystyriol o deuluoedd a gweithredir polisi gweithio'n hyblyg.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n credu yng ngwir werth gweithlu amrywiol ac rydym yn dymuno annog yn rhagweithiol ymgeiswyr o bob sector cymdeithas i ymgeisio

hyderus o ran anabledd
YMRODDEDIG